**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR GWAITH**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR GWAITH - DYDD MAWRTH, 8 MEDI 2020 DYDD MAWRTH, 8 MEDI 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: N. DANIELS (CADEIRYDD)

Councillors J. Collins
D. Davies
J. Mason
J. Wilkins

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| | **EITEMAU ER PENDERFYNIAD - MATERION ADFYWIO A DATBLYGU ECONOMAIDD** | |

| No. 4 | **BADDONAU PEN Y PWLL LLANHILEDD** | |
|---|---|---|
| | Gan roi ystyriaeth i'r farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol am y prawf cyhoeddus, o bwyso a mesur pethau fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na'r budd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth ac y dylai'r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio'r cyhoedd tra bod yr eitem hon o fusnes yn cael ei thrafod gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithriedig fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14, Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Cymru, 1972 (fel y'i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Gwasanaeth Busnes ac Adfywio.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio ac Amgylchedd fod yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ar ffordd ymlaen arfaethedig ar gyfer datblygu Baddonau Pen y Pwll, Llanhiledd. Roedd y safle mewn lleoliad amlwg yn y gymuned ac yn cael effaith negyddol barhaus ar yr ardal leol oherwydd ei gyflwr diffaith. Roedd y Cyngor hefyd wedi derbyn nifer o gwynion am strwythur peryglus gan bobl leol sydd wedi arwain at i swyddogion ymweld â'r safle ar nifer o achlysuron.<br><br>Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y cyflwynwyd adroddiadau'n flaenorol gyda golwg ar fynd â'r safle rhagddo ar gyfer ailddatblygu. Fodd bynnag, oherwydd diffyg cyllid a'r perchnogaeth tir cymhleth, nid oedd y Cyngor wedi symud ymlaen gyda ailddatblygiad. Ystyriwyd nifer o opsiynau ar gyfer y safle ac yn dilyn asesiad dynodwyd mai'r datblygiad preswyl fyddai'r gorau. Os cytunid ar yr opsiwn hwn byddai swyddogion wedyn yn symud ymlaen gydag ymgynghoriad pellach ar y cynnig gyda phobl leol ac aelodau yn ogystal â gwaith paratoi i ganfod costau a phrosesau ar gyfer Achos Busnes ffurfiol.<br><br>Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol wedyn drosolwg o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn y Pwyllgor Craffu Adfywio a chynghorodd dderbyn yr opsiwn a ffafrir.<br><br>Cydnabu Aelod Gweithredol Datblygu Economaidd ac Adfywio y bu'r safle yn ddolur llygad i breswylwyr Llanhiledd am nifer o flynyddoedd a dymunai ddiolch i swyddogion am eu gwaith yn paratoi'r adroddiad. Dywedodd yr Aelod Gweithredol ein bod yn ymroddedig i drin meysydd o gonsyrn parhaus. Croesawodd yr Aelod Gweithredol yr adroddiad sy'n galluogi'r Cyngor i gytuno i'r cam nesaf i ganfod beth y gellid ei gyflawni.<br><br>Roedd yr Aelod Gweithredol Addysg yn cefnogi'r adroddiad a dywedodd ei bod yn ymwybodol iawn o'r problemau yr oedd y safle wedi ei achosi i breswylwyr, yn ogystal â'i fod yn fan gwael am dipio anghyfreithlon. Dywedodd yr Aelod Gweithredol ei bod yn hen bryd cael buddsoddiad yn yr adroddiad a chroesawodd yr adroddiad.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod Gweithredol Addysg at y broses ymgynghori a nododd bwysigrwydd ymgysylltu lleol er mwyn trafod unrhyw bryderon a godwyd gan | |

| | | |
|---|---|---|
| | breswylwyr.<br><br>Croesawodd yr Arweinydd yr adroddiad a chytunodd fod ymgynghoriad yn hanfodol ac allweddol, yn arbennig yn yr ardal ei hun. Awgrymodd yr Arweinydd bod y Pwyllgor Gweithredol ynghyd â swyddogion o’r Timau Cyfathrebu, Ymgysylltu ac Adfywio yn cydweithio i sicrhau ymgynghoriad trwyadl. Teimlai’r Arweinydd ei bod hefyd yn bwysig i gynnwys cymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr yn ogystal â chlybiau neu sefydliadau eraill.<br><br>Ychwanegodd yr Arweinydd mai ein dymuniad yw datrys problemau hirsefydlog sy’n achos consyrn i’r cyhoedd.<br><br>Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio ac Amgylchedd gyda’r cais yn nhermau’r ymgynghoriad.<br><br>Tanlinellodd Aelod Gweithredol Datblygu Economaidd ac Adfywio yr angen i symud ymlaen gyda brys er mwyn dechrau gwaith a chynigiodd Opsiwn 2, eiliwyd y cynnig hwn a<br><br>PHENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad sy’n cynnwys gwybodaeth yn cyfeirio at faterion ariannol/busnes personau heblaw’r Awdurdod a chymeradwyo Opsiwn 2 fel y’i cynhwysir yn yr adroddiad. | |